# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 03.02.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr W. Tudor Owen a W. Gareth Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CREPERIE CAFE, 19 FFORDD CAERGYBI, BANGOR UCHAF, BANGOR

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar ran Creperie Cafe, 19 Ffordd Caergybi, Bangor Uchaf, Bangor:** Mrs Anna Gawronska-Guzek (Ymgeisydd)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Y Cynghorydd June Marshall (Aelod lleol ar Gyngor Gwynedd a hefyd aelod o Gyngor Dinas Bangor)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Creperie Cafe, 19 Ffordd Caergybi, Bangor Uchaf, Bangor am drwydded eiddo i ganiatau darparu lluniaeth hwyr rhwng 23.00 a 02.30 bob diwrnod o'r wythnos gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd rhwng 08.00 a 02.45 bob diwrnod o'r wythnos.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu na'r Adran Iechyd Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais. Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub na'r Adran Safonau Masnach unrhyw sylwadau. Derbyniwyd sylwadau gan y Gwasanaeth Cynllunio yn hysbysu eu bod yn ymchwilio i statws cynllunio'r eiddo gan awgrymu na ddylid ystyried y cais trwyddedu hyd nes y byddai hyn wedi ei gwblhau. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais a derbyniwyd e-bost gan yr aelod lleol hefyd yn gwrthwynebu'r cais. Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Rheolwr bod nodyn ar y ffeil gan Swyddog Gorfodaeth yn cadarnhau iddo weld y rhybudd angenrheidiol ar yr eiddo pan ymwelodd â'r lle yn ystod y cyfnod hysbysebu statudol, er iddo ofyn i'r ymgeisydd ei osod yn uwch i fyny ar y ffenestr.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd iddi gyflwyno'r cais oherwydd bod llawer o fyfyrwyr yn gwsmeriaid ac yn dod i'r eiddo i brynu bwyd yn hwyr yn y nos. Cydnabu bod rhai adegau o'r dydd yn gallu bod yn ddistaw ond bod y busnes yn prysuro fîn nos. Agorodd y busnes yn Hydref 2010 ac 'roedd o'r farn os oedd am lwyddo y dylai'r eiddo fod yn agored ar ôl 23.00. Nododd

bod busnesion eraill gwerthu bwyd cyfagos eisoes yn gweithredu gyda'r oriau y gofynnir amdanynt. Cadarnhaodd nad oedd yn gwerthu alcohol ac nad oedd bwriad i wneud hynny i'r dyfodol. 'Roedd yn fodlon derbyn yr angen i osod teledu cylch cyfyng fel amod. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr aelodau, cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai'r ddarpariaeth o luniaeth poeth h.y. y weithred o roddi'r lluniaeth i'r cwsmer, yn digwydd o fewn yr adeilad.

Manteisiodd yr aelod lleol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Nad oes caniatâd cynllunio'n bodoli ar gyfer y defnydd hwn ar hyn o bryd. Cyfeiriodd at gais cynllunio a wrthodwyd ar apêl ym Medi 1995 yn bennaf oherwydd bod yr arolygydd yn credu y byddai'n effeithio ar fwynderau trigolion y tai yn Britannia Square sydd gerllaw'r eiddo dan sylw. Nododd bod y rheswm hwn yn berthnasol i'r egwyddorion trwyddedu.
- Y byddai caniatau i'r eiddo fod yn agored tan 02.30, saith diwrnod yr wythnos, yn achosi niwsans i'r trigolion oedrannus/bregus sy'n byw mewn fflatiau yn Britannia Square.
- Y rhedwyd yr eiddo fel caffi ar denantiaeth, gan berson lleol, hyd at oddeutu dwy flynedd yn ôl, ond gorfodwyd iddo adael oherwydd nad oedd caniatâd cynllunio'n bodoli ar ei gyfer.

Gadawodd yr ymgeisydd, yr aelod lleol a'r Rheolwr Trwyddedu y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – ystyriwyd nad oedd gan yr heddlu unrhyw wrthwynebiad i'r cais ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o broblemau'n tarddu o'r eiddo arbennig hwn.
- Diogelwch y Cyhoedd – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r amcan trwyddedu yma.
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – nodwyd gofidion y gwrthwynebwyr y byddai caniatau'r cais yn arwain at greu niwsans i drigolion Brittannia Square yn arbennig. 'Roedd yn amlwg bod gofid am y sefyllfa gyffredinol ym Mangor Uchaf o safbwynt niwsans yn hwyr yn y nos ac yn ystod yr oriau mân. Serch hynny, nid oedd yr eiddo hwn wedi bod ar agor yn ystod yr oriau hynny ac nid oedd tystiolaeth bod unrhyw broblemau wedi codi yn ystod yr oriau agor cyfredol. Yn yr amgylchiadau felly, nid oedd tystiolaeth ddigonol wedi dod i law o niwsans cyhoeddus a fyddai'n cyfiawnhau cyfyngu neu wrthod y cais.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r amcan trwyddedu yma.

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Creperie Cafe, 19 Ffordd Caergybi, Bangor Uchaf, Bangor fel a ganlyn –**
**a) Caniatau darparu lluniaeth hwyr dan baragraff L, rhwng 23.00 a 02.30 bob diwrnod o'r wythnos.**
**b) Caniatau oriau agor yr eiddo i'r cyhoedd dan baragraff O rhwng 08.00 a 02.45 bob diwrnod o'r wythnos.**
**c) Bod teledu cylch cyfyng i fod mewn defnydd. Bydd angen cadw'r ffilm TCC am 31 diwrnod a'i roddi i'r heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol ar gais, neu os nad yw hynny'n bosibl, o fewn 48 awr.**
**ch) Bod tu mewn a thu allan i'r eiddo i'w gadw'n daclus bob amser.**
**d) Bod yr offer tân i'w archwilio ac i gael gwasanaeth yn flynyddol.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.00pm